BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

NEATH PORT TALBOT
PUBLIC SERVICES BOARD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022

# Cynnwys


RHAGAIR .... 3

CEFNDIR .... 4

AMCANION LLESIANT 2018-2023 .... 4

GWELEDIGAETH .... 5

Cynnydd .... 6

AMCAN 1: gwella llesiant plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o gael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod .... 6

trosolwg yn ystod pum mlynedd y cynllun .... 6

BLE RYDYM NI NAWR? .... 7

Amcan 2: adeiladu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth .... 9

trosolwg yn ystod pum mlynedd y cynllun .... 9

BLE rYDYM NI NAWR? .... 10

AMCAN 3: CReu amgylchedd lle gall pawb heneiddio'n dda .... 11

Trosolwg yn ystod pum mlynedd y cynllun .... 11

BLE rydym ni nawr? .... 12

Amcan 4: cefnogi llesiant trwy waith ac yn y gweithle .... 13

trosolwg yn ystod pum mlynedd y cynllun .... 13

ble rydym ni nawr? .... 14

amcan 5: gwarchod a gwella ein seilwaith gwyrdd .... 15

trosolwg yn ystod pum mlynedd y cynllun .... 15

BLE RYDYM NI NAWR? .... 16

amcan 6: cynyddu lefelau cyfranogiad/cynhwysiad digidol .... 18

trosolwg yn ystod pum mlynedd y cynllun .... 18

BLe rydym ni nawr? .... 18

gweithio pellach ar y cyd .... 20

camddefnyddio sylweddau .... 20

ATAL HUNANLADDIAD .... 20

YR ECONOMI LEOL .... 22

Yr asesiad llesiant .... 22

Y camau nesaf .... 22

# RHAGAIR

Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Castell-nedd Port Talbot ei Gynllun Llesiant ar gyfer y fwrdeistref sirol – "Y Castell-nedd Port Talbot a Garem" ym mis Mai 2018, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o lesiant y boblogaeth leol ac ymgynghori ac ymgysylltu helaeth ag ystod eang o randdeiliaid.

Rydym bellach yn agosáu at ddiwedd ein Cynllun cyntaf, ac yn falch o gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol olaf ar gyfer y cyfnod hwn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n cyflawniadau yn ystod ein cylch cyntaf fel Bwrdd a'n cynnydd o ran y blaenoriaethau gwnaethon ni eu nodi ar y cychwyn. O fewn yr amserlen gyflawni hon gwelwyd amgylchiadau digynsail, ac mae partneriaeth y BGC wedi cydweithio i gefnogi cymunedau yn ystod cyfnod eithriadol o anodd. Y BGC oedd y corff yn arwain rhaglen adferiad amlasiantaeth Castell-nedd Port Talbot yn dilyn dyfodiad Covid-19, ac o ganlyniad fe ailgyfeiriodd rai o'i ymdrechion yn y meysydd lle roedd yr angen uniongyrchol mwyaf, ac effeithiodd hynny ar rywfaint o'r cyflawni a gynlluniwyd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn ein bod yn sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl leol, a gwneud hynny mewn modd cynaliadwy. Mae manteision y cysylltiadau partner a ddatblygwyd o ganlyniad i'r BGC yn awr yn amlwg, ac maent wedi'n helpu i ymateb yn fwy effeithlon i'r sefyllfaoedd sydd wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth i ni symud at ddatblygu ein hail Gynllun Llesiant, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023, byddwn ni'n adeiladu ar y perthnasoedd hyn a'r dysgu a gyflawnwyd trwy gydweithio'n agosach. Yn ddiamau, mae cyfnod heriol o'n blaen, ond rydym wedi ymrwymo fel partneriaid i ddod at ein gilydd a gwella canlyniadau i'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu.

Gobeithio bydd gennych chi ddiddordeb yn y gwaith rydym ni'n ei wneud – byddem ni'n croesawu syniadau a chyfraniadau sy'n gallu arwain at newid fydd yn creu'r Castell-nedd Port Talbot a garai pawb ohonom.

**Y Cyng. Steven Hunt**
**Arweinydd**
**CBS Castell-nedd Port Talbot**
**Cadeirydd BGC CNPT**

**Roger Thomas**
**Prif Swyddog Tân**
**Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**
**Is-gadeirydd BGC CNPT**

# CEFNDIR

Sefydlodd Llywodraeth Cymru fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i annog sefydliadau lleol i gydweithio gyda'r poblogaethau lleol, er mwyn gwella llesiant y bobl sy'n byw y neu hardal. Cyflwynir sut mae Llywodraeth Cymru am weld hyn yn digwydd yn ymarferol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chanllawiau eraill.

Yn 2017 aeth y Bwrdd ati i gynnal asesiad cynhwysfawr o lesiant y boblogaeth leol, sy'n cynnwys ystod o wybodaeth ystadegol am y pethau niferus sy'n gallu effeithio ar lesiant. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau troseddu ac anhrefn, cyrhaeddiad addysgol, a hefyd gyfraddau marwoldeb, amlygrwydd afiechyd, etc. Bu'r Bwrdd hefyd yn casglu barn ystod eang o bobl ynghylch beth sy'n bwysig i'w llesiant. Yn olaf, roedd yr asesiad yn cynnwys Adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol, oedd yn cyflwyno nifer o faterion fyddai'n debygol o effeithio ar lesiant yn ystod y 30 mlynedd nesaf neu fwy.

Defnyddiwyd canfyddiadau'r Asesiad Llesiant cyntaf gan y Bwrdd wrth baratoi eu Cynllun Llesiant, a gyhoeddwyd yn 2018. Mae'r cynllun yn rhestru'r chwe amcan llesiant a ddewiswyd gan y Bwrdd i lywio cyfeiriad eu gwaith.

Cynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot 2018-23

# AMCANION LLESIANT 2018-2023

1. Gwella llesiant plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o gael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod
2. Adeiladu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth
3. Creu amgylchedd lle gall pawb heneiddio'n dda
4. Cefnogi llesiant trwy waith ac yn y gweithle
5. Gwarchod a gwella ein seilwaith gwyrdd
6. Cynyddu lefelau o gyfranogiad/gynhwysiad digidol

Dyma Adroddiad Blynyddol terfynol cyfnod y Cynllun Llesiant cyntaf, ac mae'n rhoi trosolwg o gyflawniadau yn ystod y cyfnod hwn, ac yn amlinellu beth fydd yn dod nesaf.

# GWELEDIGAETH

Rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn lle bywiog, iach lle mae pobl yn cael cyfle cyfartal i ddod ymlaen mewn bywyd – rhywle y mae pobl yn dymuno byw, dysgu, gweithio a buddsoddi ynddo, ac ymweld ag ef am genedlaethau lawer i ddod.

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y Trydydd Sector, fod yn effeithiol a chynnig gwerth am arian, bod yn hawdd i bobl eu defnyddio, a chynnig cyflogaeth o safon lle mae pobl yn cael eu gwerthfawrogi am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Ar y cyd â dinasyddion, byddwn ni'n adeiladu ar ein cymunedau cryf, cydlynus, lle bydd hawliau pawb yn cael eu parchu a'u diogelu.

Rydym am i'n gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn gydnerth, a'r norm fydd bod dinasyddion yn profi gwasanaethau di-fwlch, personol, o safon uchel. Bydd cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn creu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi, gan alluogi'r fwrdeistref sirol i ddenu a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o safon i bobl leol.

Bydd ein cymunedau wedi'u cysylltu'n dda gan seilwaith trafnidiaeth a digidol o'r radd flaenaf, a bydd ein hamgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu, ond hefyd yn cael ei ddatblygu i gynnal byw'n iach a buddsoddi.

Byddwn wedi cyflawni ein gweledigaeth pan fydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; pan fydd gan bob person ifanc ac oedolyn y sgiliau a'r gwydnwch i fod yn iach a llewyrchus; pan fydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; pan fydd ein holl gymunedau yn ffynnu ac yn cynnal y bobl sy'n byw yno; a lle gall pobl droi at gymdogion a rhwydweithiau cymdeithasol datblygedig am gefnogaeth.

# AMCAN 1: GWELLA LLESIANT PLANT YN EU BLYNYDDOEDD CYNNAR, YN ENWEDIG Y RHAI SYDD MEWN PERYGL O GAEL PROFIADAU NIWEIDIOL YN YSTOD EU PLENTYNDOD

## TROSOLWG YN YSTOD PUM MLYNEDD Y CYNLLUN

**Cymuned Plant Gorllewin Sandfields (SWCC)**

Sefydlwyd grŵp amlasiantaeth i ddatblygu parth cymunedol i blant yng Ngorllewin Sandfields, tebyg i brosiect peilot yn Hackney, Llundain. Datblygwyd egwyddorion allweddol a gweledigaeth mewn partneriaeth i lywio'r prosiect. Nod y peilot oedd helpu i ddatblygu dulliau gweithredu yn CNPT i sicrhau dull mwy cydlynus a chydweithredol o gefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar.

Cafodd y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac ysgol gynradd yn CNPT ei mapio ochr yn ochr â gwasanaethau sy'n cefnogi rhieni a phobl ifanc pan fyddan nhw'n dod yn oedolion. Bu ymgynghorydd allanol yn ymgysylltu â rhieni a sefydliadau oedd yn byw ac yn gweithio yn yr ardal.

Sefydlwyd grwpiau strategol a gweithredol i ddatblygu cynllun cyflawni'r SWCC a'i roi ar waith. Cyflogwyd Arweinydd Cymunedol Plant i ymgysylltu â theuluoedd a chydlynu gweithgareddau mewn gofod a addaswyd yn fwriadol i fod yn ddeniadol i deuluoedd yn Nhir Morfa. Bu'r Arweinydd Cymunedol yn sefydlu perthnasoedd da gydag ysgolion lleol, yr heddlu, a chyrff trydydd sector. Sefydlwyd Grŵp Cyfeiriadol Lleol yn cynnwys trigolion lleol a Chynghorwyr, yn nodi beth roedden nhw'n dymuno'i weld yn y gymuned a materion posibl fyddai'n llywio'r gwaith.

Mae'r SWCC yn adnodd y gwneir llawer o ddefnydd ohono gan bartneriaid, gan ddarparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cydlynus i deuluoedd.

**Gweithredu Cynnar ar y Cyd**

Sicrhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu grant trawsffurfio i ganolbwyntio gwaith ar y blynyddoedd cynnar – Gweithredu Cynnar ar y Cyd. Bu'r BGC yn cydweithio ar ffyrdd o sicrhau cydlyniad rhwng y rhaglenni, ac yn profi'r dulliau gweithredu fel rhan o'r prosiect peilot yn ardal Gorllewin Sandfields. Bu sesiynau ymgysylltu o gymorth i lywio darpariaeth i'r dyfodol a datblygu dull mwy cydlynus o ran ymyrraeth gynnar ac ataliaeth.

**Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf Llywodraeth Cymru**

Cytunodd BGCCNPT i gyfranogi yn Rhaglen 1,000 Diwrnod Cyntaf Llywodraeth Cymru (o feichiogi hyd at 2 oed), gan geisio canfod teuluoedd lle roedd perygl i blant wynebu ACEs yn sgîl tystiolaeth yn dangos cyfatebiaeth uniongyrchol o ran ACEs yn effeithio ar lesiant. Bu gweithredu cynnar yn y rhaglen yn dod â'r holl ymarferwyr rheng flaen ynghyd i drafod i ba

raddau roedd y gwasanaethau blynyddoedd cynnar presennol yn gweithio i amlygu'r meysydd oedd yn gweithio'n dda a'r bylchau yn y ddarpariaeth yn ardal Gorllewin Sandfields.

Bu'r partneriaid yn ystyried mater rhannu gwybodaeth, a chytunwyd bod angen gwella rhai protocolau rhannu gwybodaeth er mwyn cefnogi'r blynyddoedd cynnar, wrth baratoi plant ar gyfer yr ysgol, yn arbennig yn achos teuluoedd a fyddai'n elwa o gefnogaeth ychwanegol.

**Gwaith Braenaru Blynyddoedd Cynnar**

Gwahoddodd LlC y BGCau i gyfranogi yng ngwaith Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar, a chytunwyd ar brosiect ar y cyd â Chyngor Abertawe i ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhannu ymarfer, i ddatblygu dulliau gweithredu a rennir, ac i elwa o ddysgu ac ymchwil ar draws Cymru.

- Mapiwyd gwaith gyda phartneriaid ar gyfer plant 0-7 oed yng nghyswllt iechyd, addysg, gofal plant a chwarae a chymorth i deuluoedd, gyda grwpiau ffocws rhieni yn cyflenwi'r wybodaeth hon.
- Cyflogwyd dau gydlynydd (un yn Abertawe, un yn CNPT), i symud ymlaen gyda nodau ac amcanion.
- Profwyd ffyrdd newydd o weithio mewn meysydd a nodwyd yn y system blynyddoedd cynnar.
- Cyflwynwyd prosiectau peilot, gan gynnwys gwell cydlynu ar wasanaethau mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg, prynu adnoddau Wellcomm i gefnogi datblygiad iaith a lleferydd, a datblygu'r gweithlu i gefnogi llythrennedd corfforol yn y blynyddoedd cynnar.
- Cynhaliwyd gwerthusiad o'r prosiectau peilot, a defnyddiwyd y canfyddiadau i ailwampio a mireinio'r prosiectau hynny sydd wedi parhau i mewn i 2021/22.

**Diweithdra Ieuenctid**

Trwy waith yr Asesiad Effaith Gymunedol, cydnabyddwyd bod y pandemig wedi cael effeithiau anghymesur ar bobl ifanc, a bu'r BGC yn goruchwylio gwaith dan arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau. Darparodd Hybiau (a sefydlwyd wyneb yn wyneb ac yn rhithwir) wybodaeth a chyngor i bobl ifanc oedd heb fod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Y ffocws oedd dau lwybr cyflogadwyedd, iechyd a llesiant. Datblygodd y Partneriaid a'r Arweinwyr Ieuenctid sesiynau ynghylch CVs, sgiliau cyfweld, profiad gwaith, Kickstart, cyfleoedd mewn sectorau, a siaradwyr a wahoddwyd i roi ysbrydoliaeth. Cyflwynodd Cyfle Cymru gyrsiau ynghylch gorbryder ac iselder, gydag adborth rhagorol. Cwblhawyd ymarferiad mapio gyda'r Grŵp Plant a Phobl Ifanc i nodi meysydd cefnogaeth a chyfleoedd yng nghyswllt y ddau lwybr.

## BLE RYDYM NI NAWR?

Mae'r amcan hwn yn dal yn berthnasol i CNPT, o bosibl yn fwy nag erioed yn awr. Mae diffygion mawr wedi'u cysylltu ag amddifadedd sosio-economaidd a wynebir gan blant yn CNPT. Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd 48% o'r plant a gychwynnodd yn yr ysgol heb gael

eu paratoi’n dda i ddysgu. Mae’n amlwg, yn y cyfnod wedi’r pandemig, fod tirlun y blynyddoedd cynnar wedi colli tir, fel bod angen ffocws allweddol ar y blynyddoedd cynnar, yn arbennig mewn cydweithrediad â phartneriaid.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen yn y Cynllun Llesiant nesaf o dan yr amcan **‘Bod Pob Plentyn yn cael y Dechrau Gorau mewn Bywyd**’.

# AMCAN 2: ADEILADU CYMUNEDAU DIOGEL, HYDERUS A CHYDNERTH

## TROSOLWG YN YSTOD PUM MLYNEDD Y CYNLLUN

Yng nghyfnodau cychwynnol yr amcan hwn, datblygodd y Bwrdd ddull seiliedig ar leoedd a seiliedig ar asedau o weithio gyda chymunedau. Roedd y dull gweithredu hwn yn adeiladu ar gryfderau pobl ac ardaloedd lleol, yn hytrach na chanolbwyntio ar roi sylw i ddiffygion yng Nghwm Aman Uchaf, Llansawel a Melin. Ffocws y grŵp oedd:

- ***Pobl*** – Cymunedau Cydnerth ar draws y ddwy ardal beilot lle gall pobl deimlo'n ddiogel, yn iach, yn gysylltiedig ac yn abl i helpu eu hunain a'i gilydd.
- ***Lleoedd*** – Bydd yr ardaloedd peilot yn gymunedau sy'n integredig, yn gysylltiedig, yn meddu ar ymdeimlad o le ac yn cefnogi gwydnwch eu trigolion.
- ***Systemau*** – Defnyddir dull system gyfan lle mae'r partneriaid yn gwrando, yn ymgysylltu ac yn alinio'u hunain â Chymunedau ac â'i gilydd er mwyn cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi gweithgareddau a arweinir gan y Gymuned.

Creodd y grŵp strwythur llywodraethu oedd yn cynnwys grŵp arweinyddiaeth, grŵp rheoli strategol a grwpiau gweithrediadol a oedd yn gweithio yn y gymuned. Bu'r grŵp hefyd yn creu cysylltiad â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn sgîl blaenoriaethau tebyg ar draws y ddau fwrdd, a chyflwynwyd cynnig trawsffurfio i sicrhau adnoddau ariannol ar gyfer y gwaith hwn, gyda chyllid yn targedu meithrin capasiti cymunedol a hyfforddi gwasanaethau cyhoeddus a gweithluoedd y trydydd sector. Cytunodd y grŵp na fyddai'n canolbwyntio ar bobl fregus yn unig, ond yn hytrach yn cynnwys y gymuned gyfan. Mapiwyd yr asedau cymunedol, a datblygwyd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu. Roedd y grŵp yn dymuno trawsffurfio sut roedd ymgysylltu â chymunedau'n digwydd, er mwyn creu cymunedau integredig oedd yn meddu ar ymdeimlad o le i gynnal gwydnwch eu trigolion. Cynhaliwyd llawer o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned (yn cynnwys diwrnodau agored, cyfarfodydd cyhoeddus, ymgysylltu ag Aelodau o'r Senedd a chynghorwyr lleol) a chyfleoedd i recriwtio gwirfoddolwyr (ffeiriau gwirfoddolwyr a gwobrau gwirfoddolwyr) er mwyn cynnwys y gymuned, adeiladu ar gryfderau, a chreu cysylltiadau, yn ogystal ag er mwyn creu ardaloedd lle gall pobl deimlo'n ddiogel, yn iach, yn gysylltiedig ac yn abl i helpu eu hunain a'i gilydd. Bu grant Arloesi a Chreu gwerth £300k o gymorth i gefnogi grwpiau cymunedol gwirfoddol a mentrau cymdeithasol yn ardaloedd Llansawel a Melin, gan ariannu prosiectau megis adnewyddu adeiladau oedd yng ngofal y gymuned a darparu gwasanaethau cefnogi ychwanegol i rieni/ofalwyr y rhai ag anghenion ychwanegol.

Bu'r rhaglen yn herio dulliau sefydledig o weithio a gwahaniaethau yn niwylliant sefydliadau, ac roedd yn hanfodol ymgysylltu â staff ar draws pob asiantaeth. Crewyd animeiddiad ar gyfer y gweithlu mewnol fel bod gwybodaeth glir a chyson yn cael ei darparu ynghylch yr hyn roedd y rhaglen am ei gyflawni. Cychwynnodd hynny raglen hirdymor o newid lle cymerwyd amser i sefydlu strwythurau/systemau i gefnogi sefydlu'r rhaglen. Roedd y rhaglen yn barod i fod yn fwy allblyg, gan ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned ac asedau, ochr yn ochr â nodi unrhyw ardaloedd lle roedd angen er mwyn meithrin gwydnwch. Roedd dealltwriaeth, fel rhan o'r dull gweithredu newydd seiliedig ar leoedd roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno arno ym mis Mawrth 2020, y byddai dadansoddiad

data ehangach o’r angen yn cael ei gynnal yn yr ardaloedd peilot er mwyn sefydlu gwaelodlin a sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o’r themâu.

Ataliwyd y rhaglen waith gan y pandemig, a bu’r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid ar lif gwaith Iach a Diogel er mwyn cynorthwyo trigolion Castell-nedd Port Talbot yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan y cyfnod clo.

## BLE RYDYM NI NAWR?

Yn ystod y pandemig gwnaeth cymunedau waith anhygoel yn cefnogi ei gilydd ac yn camu i’r adwy pan na allai gwasanaethau ddarparu eu cefnogaeth arferol. Gwnaed gwaith gwych gan y trydydd sector o ran hyfforddi pobl i wirfoddoli. Tanlinellodd Covid-19 yr enillion aruthrol oedd yn bosibl pan gaiff cymunedau eu hyrwyddo yn y modd cywir. Dysgwyd llawer iawn o ganlyniad i’r gwaith a wnaed fel rhan o’r amcan hwn, sydd wedi bwydo i rywfaint o’r gwaith cyfredol ynghylch yr argyfwng costau byw. Datblygir hyn ymhellach yn y Cynllun nesaf o dan yr amcan **‘Bod ein Holl Gymunedau yn Llewyrchus a Chynaliadwy’**.

# AMCAN 3: CREU AMGYLCHEDD LLE GALL PAWB HENEIDDIO'N DDA

## TROSOLWG YN YSTOD PUM MLYNEDD Y CYNLLUN

Ffurfiwyd grŵp Llywio Heneiddio'n Dda, a nodwyd chwe llif gwaith gwahanol:

1. Datblygu cymunedau sy'n hwylus i'r oedrannus ac yn cefnogi dementia.
2. Lleihau nifer yr achosion o gwympo.
3. Lleihau amlygrwydd unigrwydd ac ynysu cymdeithasol diofyn.
4. Darparu dysgu cadarnhaol, cyflogaeth a chyfleoedd i wirfoddoli.
5. Lleihau tlodi, gan gynnwys marwolaethau cysylltiedig ag oerni a thanwydd.
6. Cynyddu ymwybyddiaeth a rhoi gwybod am droseddau sy'n targedu pobl hŷn.

Ymhlith cyflawniadau'r grŵp roedd:

- Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hyfforddiant Dementia a gefnogir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin.
- Gweithio gyda Chymdeithas Alzheimer yn rheolaidd i gyflawni safon gydnabyddiaeth Cymdeithas Alzheimer am fod yn gymuned Dementia-Gyfeillgar, ac anogwyd aelodau'r grŵp Heneiddio'n Dda i ddatblygu trefniadau Dementia-Gyfeillgar yn eu sefydliadau eu hunain. Cyflawnodd CBSCNPT statws Dementia-Gyfeillgar ym mis Chwefror 2020. Roedd y gwaith hwn yn cyd-fynd â'r rhaglen Adeiladu Cymunedau Diogel a Chydnerth.
- Mewn cysylltiad â'r Grŵp Atal Cwympo ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe, bu gwaith y BGC yn edrych ar ataliaeth sylfaenol, gyda'r BPRh yn canolbwyntio ar ataliaeth eilaidd a thrydyddol.
- Asesu graddfa a chwmpas yr unigrwydd a'r ynysu – roedd dealltwriaeth bod angen gwaith cymunedol weithiau, a dull gweithredu un i un dro arall.
- Gwaith i ymdrin â chredyd cost uchel a dyledion tenantiaid Tai Tarian. Roedd hyn yn cynnwys gwaith gyda Michael Sheen ar Alliance.
- Nododd Heddlu De Cymru nad yw pobl hŷn yn rhoi gwybod am droseddu ac anhrefn – roedd y canfyddiad hwn i'w fwydo i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer gweithredu.

Cafodd y gwaith ymyrraeth gynnar ac ataliaeth gyda model Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfri/Making Every Contact Count ei rannu a'i ystyried, a rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y model hwn i holl aelodau'r grŵp. Nodwyd y dull hwn fel un lle roedd angen cynllunio pellach.

Roedd grŵp Llywio Heneiddio'n Dda yn cydnabod yr angen am rywfaint o gynllunio model rhesymegol yng nghyswllt y gwaith hwn, er mwyn sicrhau bod yr angen a'r canlyniad a ddymunid yn glir. Cytunwyd y byddai'r maes gwaith hwn yn addas fel peilot ar gyfer dull gweithredu seiliedig ar leoedd. Cynlluniwyd gwaith pellach i sicrhau bod modd i'r gwaith ategu a chyfrannu at rywfaint o'r gwaith seiliedig ar leoedd a gychwynnwyd eisoes, gan osgoi dyblygu a negeseuon oedd yn gwrthdaro. Roedd heriau ynghlwm wrth gyflawni rhai o'r llifoedd gwaith eraill a nodwyd o dan yr amcan hwn, oedd yn methu gwneud cynnydd heb ymrwymiad ac ymwneud penodol gan bartneriaid. Wedi i'r amcanion llesiant gael eu hadolygu yn 2020, cytunodd y BGC mai'r dull mwyaf cadarnhaol a chynhyrchiol o symud y

gwaith pwysig hwn ymlaen yw cysylltu â’r ardaloedd peilot sydd eisoes yn bodoli a chyfrannu at y gwaith sy’n dod i’r amlwg yno, gyda ffocws ar bobl hŷn a beth sy’n bwysig iddyn nhw.

## BLE RYDYM NI NAWR?

Wrth i ni edrych i’r dyfodol bydd gennym boblogaeth a fydd yn heneiddio fwyfwy yn CNPT, ac rydym yn disgwyl i hynny roi straen ar wasanaethau. Byddwn ni’n parhau i ystyried pobl hŷn yn ein cymunedau trwy ein hamcan **‘Bod ein Holl Gymunedau yn Llewyrchus a Chynaliadwy’**.

# AMCAN 4: CEFNOGI LLESIANT TRWY WAITH AC YN Y GWEITHLE

## TROSOLWG YN YSTOD PUM MLYNEDD Y CYNLLUN

Cytunwyd y byddai ffocws cychwynnol y gwaith yn canolbwyntio ar sut gellid pwyso am welliannau i lesiant trwy sefydliadau partner y BGC yn eu rôl fel cyflogwyr pwysig yn yr ardal leol.

Mewn gweithdy cychwynnol gwelwyd rhaglenni a mentrau llesiant oedd eisoes yn bodoli ym mhob un o asiantaethau partner y BGC yn cael eu rhannu a'u cofnodi. Hefyd rhannwyd manylion cyswllt ar gyfer y rhai oedd â diddordeb mewn mynd ar ôl gwybodaeth a rannwyd yn y gweithdy.

Rhannodd y partneriaid arfer gorau o ran cefnogi a hybu iechyd a llesiant staff yn eu sefydliadau, a chynigiwyd rhannu datblygiadau ar draws sefydliadau partner.

Cyflwynodd cydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe y Gwasanaeth Llesiant Staff sy'n galluogi staff i gael mynediad at gymorth prydlon ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol a iechyd meddwl cyffredinol trwy un pwynt mynediad dros y ffôn. Roedd hyn yn cael ei gefnogi a'i hyrwyddo gan rwydwaith o fwy na 340 o Hyrwyddwyr Llesiant sy'n derbyn cyfleoedd datblygu a hyfforddi trwy fynychu gweithdai ddwywaith y flwyddyn, sy'n rhoi gwybod iddyn nhw am y gefnogaeth fewnol ac allanol y gallan nhw gyfeirio aelodau o'r tîm ati. Mae'r hyrwyddwyr hefyd yn hybu ymgyrchoedd iechyd cenedlaethol ac yn hwyluso mentrau llesiant yn eu gweithleoedd.

Roedd ail weithdy yn cynnwys cyflwyniadau gan Gwmni Moduron Ford a Gweithio Iach Cymru, a disgrifiodd Tai Tarian a Iechyd Cyhoeddus Cymru sut gallai mentrau llesiant gael eu mesur a'u defnyddio i gyflawni gwelliannau pellach i lesiant trwy'r gweithle.

Effeithiodd rhannu Bwrdd Iechyd ABMU ar lefel y momentwm roedd modd ei gynhyrchu ar gyfer y flaenoriaeth hon yn ystod blwyddyn gyntaf yr amcan, gan fod gofyn i'r Bwrdd Iechyd a'r partneriaid cysylltiedig roi blaenoriaeth i'r gwaith oedd yn angenrheidiol i drosglwyddo gwasanaethau iechyd i bobl Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.

Ymddeolodd Swyddog Arweiniol yr amcan llesiant hwn yn 2019, ac oherwydd problemau capasiti nid oedd modd symud ymlaen ymhellach gyda'r maes gwaith hwn.

Wedi 2020, roedd cynlluniau i ddatblygu'r amcan hwn trwy raglen datblygu'r gweithlu gyda phartneriaid y BGC.

Ym mis Mawrth 2020, mabwysiadodd holl asiantaethau partner y BGC ddealltwriaeth a rennid o'r diffiniad o lesiant, ar sail y Model Iechyd Cyhoeddus. Penderfynwyd y byddai gwaith yn y dyfodol yn seiliedig ar leoedd, ac yn troi o gwmpas y tair ardal beilot oedd eisoes yn bodoli, Gorllewin Sandfields, Llansawel/Melin a Chwm Aman Uchaf. Byddai'r holl amcanion llesiant yn bwydo i ddull gweithredu'r ardaloedd peilot ac roedd llifoedd gwaith i gael eu harwain gan gymunedau trwy ddull seiliedig ar asedau. Ataliodd y pandemig gynnydd ar hyn, ond mae'r partneriaid yn dal yn ymroddedig i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar leoedd yn y dyfodol.

## BLE RYDYM NI NAWR?

Mae’r partneriaid yn dal i weld llesiant yn y gweithle fel maes ffocws pwysig. Yn ein Cynllun Llesiant nesaf rydym wedi cytuno **‘Bod mwy o swyddi diogel, gwyrdd ac am gyflog da, a bod sgiliau’n cael eu gwella ar draws yr ardal’.** Bydd yn bwysig bod llesiant yn elfen annatod o’r cydweithio rhwng partneriaid fel rhan o’r amcan hwn.

# AMCAN 5: GWARCHOD A GWELLA EIN SEILWAITH GWYRDD

## TROSOLWG YN YSTOD PUM MLYNEDD Y CYNLLUN

Gofynnwyd i CNC arwain ar yr amcan hwn a datblygu'r camau nesaf ar gyfer gweithredu. Nid oedd fforwm amgylcheddol na grŵp llywodraethu tebyg eisoes yn bodoli i weithio gyda nhw, felly ffurfiwyd y "Grŵp Craidd SG", oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o groestoriad o bartneriaid y BGC.
Y camau i'w cymryd o dan yr amcan hwn oedd: ystyried pa asedau naturiol oedd gan CNPT, ym mha gyflwr roedden nhw, a sut gallai'r BGC wella cyflwr yr asedau hynny a'r manteision oedd yn dod yn eu sgîl.
Bu'r grŵp hwn yn datblygu'r gwaith a nodwyd yn y Cynllun Llesiant ac yn cynnig am gyllid o dan Raglen Grantiau Cyfalaf SG Llywodraeth Cymru, a sicrhau'r cyfalaf hwnnw.

Aed ati i fapio'r mannau gwyrdd a glas yng Nghastell-nedd Port Talbot yn fanwl, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed ar gyfer y Datganiadau Ardal a'r Asesiad Llesiant. Crewyd mapiau galw a chyfle ar gyfer ystod o faterion, gan gynnwys: ansawdd aer; mynediad at fannau gwyrdd; llifogydd; ac atafaelu carbon.

Dewiswyd ardal beilot – Margam a Thaibach – yn safle lle gallai cydweithio gyflawni manteision lluosog. Clustnodwyd Meysydd Chwarae Groeswen ar gyfer gwelliant SG, a datblygwyd dyluniad y safle gan ymgynghorwyr tirwedd, gyda'r trigolion lleol yn cael eu cynnwys ar hyd y broses.

Ym mis Chwefror 2019, cynhaliwyd gweithdy gyda phartneriaid i archwilio ardaloedd y gellid eu datblygu i gefnogi llesiant. Un o fanteision uniongyrchol y gweithdy oedd ffurfio rhwydwaith o sefydliadau â diddordeb a gwirfoddolwyr. Roedd y grŵp yn croestorri amcanion, a buont hefyd yn cynnig syniadau o ran ble gallai'r gwaith SG gefnogi amcanion llesiant eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bu'r Prosiect Cysylltu Seilwaith Gwyrdd yn datblygu dull newydd, cydweithredol o ddylunio a chyflwyno seilwaith gwyrdd (SG) ar draws Castell-nedd Port Talbot (CNPT), Abertawe a Sir Gaerfyrddin, er budd i gymunedau lleol a'u hamgylchedd naturiol. Gyda Chyngor CNPT yn arwain, cyflwynwyd SG mewn ffyrdd oedd yn diwallu anghenion lleol, yn cefnogi cymunedau a'u hiechyd, yn meithrin gwydnwch ecosystemau, ac yn gwella bioamrywiaeth.

Oherwydd bod hon yn thema oedd yn croestorri, daeth cynrychiolwyr o'r grŵp llywio yn allweddol yng ngwaith y Rhaglen Adeiladu Cymunedau Diogel a Chydnerth o ran mannau gwyrdd yn yr ardaloedd peilot.

Newidiodd Covid-19 ein ffordd o fyw a gweithio yn sylfaenol. Er bod y ffordd newydd hon o weithio wedi creu heriau o ran gweithio ar y cyd, dangosodd hefyd ein galluoedd i weithio dan bwysau gyda'n gilydd, a'n gwydnwch yn wyneb newid. Mae rhai o'r newidiadau hyn wedi bod er gwell, ac wedi herio'r normau a'r patrymau ymddygiad oedd yn dderbyniol gennym. Yn arbennig, dangosodd Covid-19 a'r cyfnodau clo bwysigrwydd aruthrol mannau gwyrdd naturiol, hygyrch, gyda llawer yn ailgysylltu â byd natur yn eu hardal leol, a hynny'n

arwain at fwy o werthfawrogiad a rhoi mwy o werth iddo. Yn bwysig, trwy ffyrdd newydd o fyw a gweithio, dangoswyd ein gallu i newid ac addasu er mwyn mynd i’r afael â phroblemau cymhleth.

Fel rhan o waith y BGC yn ymateb i Covid, cefnogodd y Grŵp Craidd SG ddatblygiad yr Asesiad Effaith o ran Covid. Gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol, amlygodd y Grŵp rai o’r manteision amgylcheddol (tymor byr) a welwyd yn sgîl llai o draffig, er enghraifft. Llywiodd y grŵp rai o’r cwestiynau a gafodd eu cynnwys yn arolwg cyhoeddus BGC CNPT. Roedd canlyniadau’r arolwg hwn yn dangos mwy o ffocws ac ymwybyddiaeth o fyd natur a’r amgylchedd. Er enghraifft, teimlai 86% o’r cyfranogwyr fod bywyd gwyllt ac ansawdd aer wedi gwella yn ystod y cyfnod clo. Ar ben hynny, roedd 38% wedi dod yn fwy ymwybodol o fyd natur ac yn pryderu mwy amdano, ac roedd hynny’n wir am 27% yn achos y newid yn yr hinsawdd. Mae’n werth nodi bod 61% bellach yn rhoi mwy o werth ar fannau gwyrdd hygyrch. Dangosodd y canlyniadau hyn fwy o bwyslais ar fyd natur a’r amgylchedd a'i fanteision i’r gymdeithas.

Er gwaethaf heriau Covid-19 a gweithio o bell, llwyddodd Grŵp Craidd Seilwaith Gwyrdd BGC Castell-nedd Port Talbot i symud ymlaen gyda nifer o brosiectau llwyddiannus.

Yn 2020/21 darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyllid o £25,000 o Gyllid Strategol a Ddyrannwyd (SAF) i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT ar gyfer prosiectau oedd yn cyd-fynd â Datganiad Ardal De Cymru. Mae mecanwaith yr SAF yn darparu sylfaen ar gyfer gwaith CNC i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun corfforaethol, Datganiadau Ardal a chynlluniau a strategaethau gweithredol. Defnyddiwyd y cyllid i gefnogi Mapio rhai Mannau Gwyrdd Cymunedol ar 30 o safleoedd ar draws CNPT, ac i gynnal astudiaeth dichonoldeb ar gynlluniau Parc Coedwig Afan i’r dyfodol.

Cadarnhawyd y sefyllfa o ran yr amcan ac adroddwyd arno mewn cyfarfod o Swyddogion Arweiniol BGC CNPT ym mis Ionawr 2020. Cafwyd cytundeb cyffredinol bod angen adolygu’r amcanion er mwyn sefydlu blaenoriaethau a ffocws o’r newydd. Ers hynny, mae’r cynnydd (y tu hwnt i’r hyn a ddisgrifiwyd uchod) wedi cael ei gyfyngu i roi mewnbwn i’r grŵp Asesiad Effaith Cymunedol a chefnogi’r diweddariad i’r Asesiad Llesiant, a wnaed trwy siarad ag unigolion yn eu meysydd arbenigedd.

## BLE RYDYM NI NAWR?

Mae’r amcan yn fwy perthnasol nawr nag erioed gan fod gennym argyfwng deuol o ran byd natur a’r hinsawdd (nad oedd datganiad wedi’i wneud yn ei gylch pan bennwyd yr amcan diwethaf). Ar ben hynny, daeth manteision mwy cyffredinol yr amgylchedd i lesiant yn gwbl amlwg, fel y gwnaeth y posibiliadau o ran newid ymddygiad (e.e. defnyddio ceir) yn ystod y pandemig.

Mae Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol 2020 CNC (SONARR 2020) hefyd wedi’n hatgoffa bod angen i ni edrych ar newid systemau os ydym am gael effaith amlwg – yn arbennig yn achos y systemau ynni, bwyd a thrafnidiaeth. Mae’r BGC yn rhwydwaith pwysig o ran helpu i roi newid o’r fath ar waith.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen o dan yr amcan **‘Bod modd i genedlaethau’r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a’n treftadaeth’.** Wrth ddatblygu’r Asesiad Llesiant cyfredol, roedd yn amlwg bod ein hamgylchedd yn effeithio ar bob agwedd ar lesiant. Yn ystod y broses o ddatblygu’r Cynllun Llesiant nesaf byddwn ni’n ystyried cyd-destun argyfwng yr hinsawdd a byd natur ar draws ein holl feysydd gwaith.

## AMCAN 6: CYNYDDU LEFELAU CYFRANOGIAD/CYNHWYSIAD DIGIDOL

### TROSOLWG YN YSTOD PUM MLYNEDD Y CYNLLUN

Sefydlodd yr amcan strwythur llywodraethu clir ar gyfer cyflawni, oedd yn cynnwys holl bartneriaid y BGC. Roedd data dibynadwy yn amlygu bod angen rhoi sylw i broblemau cyfranogiad yng nghymunedau CNPT.

Roedd cysylltiad rhwng y llif gwaith hwn a Chymunedau Digidol Cymru, oedd yn hyrwyddo cynhwysiad digidol ar lefel genedlaethol. Defnyddiwyd siarter cynhwysiad digidol Cymunedau Digidol Cymru yn sylfaen ar gyfer gwaith ar yr amcan hwn. I gychwyn, cynhaliwyd archwiliad i fesur man cychwyn yr asiantaethau unigol, a bu hynny'n cynyddu ymwybyddiaeth o gynhwysiad digidol ymhlith asiantaethau ac yn helpu i wreiddio'r dull gweithredu.

O ganlyniad i'r gwaith, cynyddodd nifer o asiantaethau eu capasiti, ac felly o bosib gwelwyd gwelliant o ganlyniad i waith y BGC, er enghraifft, ymrwymodd Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru i'r siarter, ac roedd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn yr oedd angen iddynt ei wneud i hybu cynhwysiad digidol. Roedd Canolfan Byd Gwaith eisoes yn gweithio ar gynhwysiad digidol, ac roedd modd i grŵp amcan y BGC ddysgu oddi wrthyn nhw o ran eu dull o ymdrin â'r gwaith.

Adolygwyd hyn fel llif gwaith rhannol lwyddiannus, a fu'n dylanwadu ar ymwybyddiaeth a chapasiti sefydliadol mewn rhai asiantaethau. Fodd bynnag, dewisodd rhai o bartneriaid y BGC beidio ag ymwneud â'r llif gwaith hwn.

Cychwynnodd yr amcan o safbwynt ail-greu dull o feithrin capasiti sefydliadol yng ngwahanol asiantaethau'r BGC. Datblygwyd mwy o gapasiti sefydliadol, ac mae gwaith i'r dyfodol o fewn gwahanol gyrff sector cyhoeddus yn awr yn derbyn sylw o bersbectif cynhwysiad digidol o ganlyniad.

Canfu'r Bwrdd cyn y pandemig fod amcanion y BGC yn wynebu heriau, a phenderfynwyd gwneud newidiadau i'w gweithrediad. Bwriad y BGC oedd mabwysiadu dull seiliedig ar iechyd a newid ffocws i ddull gweithredu seiliedig ar leoedd. Roedd y llif gwaith cynhwysiad digidol eisoes wedi cael ei ddatblygu, gyda phartneriaid yn ymgymryd ag ef, ac wrth symud ymlaen byddai cynhwysiad digidol yn dod o dan yr amcan 'cymunedau llewyrchus a chynaliadwy.

### BLE RYDYM NI NAWR?

Yn ystod y pandemig, pan oedd argaeledd a gallu digidol yn bwysicach nag erioed o'r blaen, roedd gwaith y Grŵp Llywio Cynhwysiad Digidol yn fan cychwyn cadarn ac yn rhoi partneriaid y BGC mewn sefyllfa gref i ymateb yn gyflym i'r heriau a wynebwyd. Roedd lefel dda o ddealltwriaeth o dirlun CNPT yng nghyswllt cynhwysiad digidol, ac roedd modd i'r partneriaid ledaenu gwybodaeth gyhoeddus gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli er mwyn osgoi eithrio'r rhai nad oeddent yn actif yn ddigidol.

Wrth symud ymlaen, mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd cynhwysiad digidol ar draws pob agwedd ar ei waith. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol o dan yr amcan **'Bod ein holl Gymunedau yn Llewyrchus a Chynaliadwy'.**

## GWEITHIO PELLACH AR Y CYD

### CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Yn dilyn adroddiadau am lefelau uchel o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau, heintiau difrifol a chynnydd yn y troseddu a drefnwyd ar draws yr ardal, cytunodd byrddau gwasanaethau cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe fod angen gweithredu ar draws asiantaethau. Ffurfiwyd Grŵp Digwyddiadau Critigol, gydag aelodau o ystod eang o asiantaethau, er mwyn asesu'r risg, y bygythiadau a'r niwed yn fanwl, ac er mwyn rhoi ymateb priodol ar waith ar unwaith.

Cyfarfu'r Grŵp Digwyddiadau Critigol rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2020. Mae'r gwaith wedi arwain at welliant arwyddocaol yn ymwneud asiantaethau â gwaith y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r agenda gysylltiedig ehangach. Cryfhaodd y Bwrdd Cynllunio Ardal ei drefniadau llywodraethu, a hefyd bu'n cryfhau'r tîm rhanbarthol sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd.

Yn dilyn hynny, roedd gan arweinwyr uwch well dealltwriaeth o'r darlun o risg, bygythiadau a niwed ar draws rhanbarth Gorllewin Morgannwg, ac mae rhannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd ymhlith asiantaethau wedi gwella.

Bu'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn caffael cefnogaeth allanol ar gyfer iechyd cyhoeddus er mwyn adolygu'r model gwasanaeth presennol a sefydlu cynigion ar gyfer datblygu model sy'n fwy addas at y diben.

Ym mis Ionawr 2020 cytunwyd i fabwysiadu dull gweithredu tymor hwy yng nghyswllt Iechyd Cyhoeddus mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau. Cyflwynwyd adroddiad a baratowyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Roedd hyn eisoes wedi cael ei gymeradwyo yn y Bwrdd Cynllunio Ardal, ac fe'i cymeradwywyd wedyn gan y BGC ar y Cyd. Cytunwyd mai'r Bwrdd Cynllunio Ardal fyddai'n symud y gwaith hwn ymlaen.

Mae'r ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dod at ei gilydd eto yn ddiweddar i adolygu cynnydd yn y maes hwn yng ngoleuni'r cyd-destun cyfredol a'r data diweddar sy'n gwaethygu o safbwynt marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau. Mae hyn yn dal yn broblem sylweddol, ond mae ymrwymiad cadarn gan yr holl asiantaethau partner i gydweithio a rhoi blaenoriaeth i weithredu.

### ATAL HUNANLADDIAD

Roedd y gwaith a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2018 yn nodi atal hunanladdiad fel mater yr oedd angen rhoi mwy o sylw iddo ar draws rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Gan gydnabod bod achosion hunanladdiad yn gymhleth, cytunodd y ddau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio, gyda'r bwriad o ganfod pa gamau gellid eu cymryd i leihau cyfraddau hunanladdiad. Sefydlwyd Grŵp Amlasiantaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-

niweidio, dan gadeiryddiaeth Iechyd Cyhoeddus, gyda BGC CNPT ac Abertawe ar y Cyd yn bwrw golwg dros y gwaith. Cyfarfu'r bwrdd am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2019. Wrth gytuno ar y camau i'w symud ymalen, gweithiodd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod llinell glir o gyfathrebu â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, fel bod modd ymgorffori unrhyw gamau gweithredu oedd yn ymdrin â iechyd a gofal cymdeithasol yng ngwaith y bartneriaeth honno.

Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru ddwy flynedd yn olynol (2019/20 a 2020/21) i ddarparu arian cychwynnol ar gyfer darnau bach, datblygiadol o waith a fyddai'n cefnogi'r agenda leol. Bu'n rhaid gohirio'r gwaith arfaethedig, oedd yn cynnwys cipolwg ar iechyd meddwl dynion, datblygu hyfforddiant ac adnoddau, oherwydd y pandemig. Roedd aelodau'r grŵp yn awyddus i ail-greu'r cysylltiad oherwydd rhai o'r anawsterau roedd pobl yn eu hwynebu a phryderon ynghylch effaith y pandemig ar iechyd meddwl a hunanladdiad/hunan-niweidio. Nid oedd hynny'n digwydd ar lefel ffurfiol oherwydd bod y rhan fwyaf o'r aelodau yn dal i ymwneud â'r ymateb i'r pandemig.

Yn haf 2021, deuwyd â'r aelodau yn ôl i adolygu'r tirlun newydd a'r camau arfaethedig cyn Covid. Nodwyd bod y tirlun bellach yn wahanol. Nid y cynllun yn benodol oedd y broblem, ond yn bwysicach, sut roedd sicrhau ymrwymiad, ymgysylltiad a chrynhoi ymdrechion yn y system, ac mae rhai heriau'n dal i fodoli yn hynny o beth, ochr yn ochr â'r ffaith nad oes capasiti ychwanegol i yrru'r agenda ymlaen rhwng cyfarfodydd gwirfoddol unigolion o wahanol sefydliadau. Cyflawnwyd llawer gan y grŵp, a datblygiad pwysig yw bod y Grŵp Gweithredu Amlasiantaeth wedi dod â'r agenda at ei gilydd, ac mae'r tirlun yn llawer cliriach.

Darparwyd hyfforddiant i ystod eang o bobl ar brofedigaeth a hunanladdiad. Gweithiwyd hefyd ar ddeall y daith o geisio cymorth gyda dynion canol oed trwy'r Gweilch, ac mae hynny'n awr yn arwain at gydgynhyrchu atebion posibl, ar sail y ddealltwriaeth a gafwyd.

Bellach mae system ymateb brys amlasiantaeth yn ei lle ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau newydd yr hysbysir amdanynt gan yr heddlu yn achos plant ac oedolion ar draws ardaloedd y ddau awdurdod lleol. Adroddir ar hyn i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac mae hynny'n sicrhau ymateb cyflym i gefnogi'r rhai o amgylch yr unigolyn, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth yn eu galar, ac i leiafu unrhyw risg iddynt hwythau. Yn fwy diweddar datblygwyd proses i edrych ar 'ymdrechion arwyddocaol', gyda'r nod o rannu'r dysgu.

Ymhlith y datblygiadau eraill mae'r gwasanaeth profedigaeth cyntaf (yng Nghymru) yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer pawb sydd mewn profedigaeth oherwydd unrhyw farwolaeth, a chysylltwyd y rhain â'r grŵp ymateb i hunanladdiad ac achosion agos at hynny er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau cywir yn cael eu gwneud.

Mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud atal hunanladdiad yn un o bum blaenoriaeth ansawdd a diogelwch ar gyfer y sefydliad, gyda ffocws ar staff a fu trwy gyfnod arbennig o anodd yn sgîl Covid-19. Darparwyd hyfforddiant gwybodus am drawma i'r staff oherwydd eu bod yn grŵp risg uchel. Bellach mae cydlynydd rhanbarthol yn darparu rhywfaint o gapasiti ychwanegol.

Mae'r tirlun presennol o ran partneriaeth wedi cael ei fapio, ac mae hynny wedi nodi fforymau allweddol lle dylid/gellid cynnwys y gwaith hwn, ac mae hynny wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth mewn rhai ffora, gan gydnabod eu rôl.

## YR ECONOMI LEOL

Yn dilyn yr Asesiad Effaith Cymunedol a gynhaliwyd wedi ton gyntaf pandemig Covid-19, sylweddololdd y Bwrdd fod bwlch o ran fforwm amlasiantaeth lleol oedd yn monitro'r economi yn CNPT. Ffurfiwyd y Fforwm Economaidd Leol, oedd yn cynnwys grŵp bychan o asiantaethau partner yn y lle cyntaf. Mae'r grŵp hwn wedi olrhain y newidiadau i'r economi leol yn ystod y pandemig ac wedi bwrw golwg dros ddatblygiad Cynllun Adferiad i'r Economi Leol. Bellach mae llywodraethiant y grŵp hwn wedi cael ei estyn i gwmpasu'r dyletswyddau sydd ynghlwm wrth grant Cronfa Ffyniant a Rennir y Deyrnas Unedig (UK Shared Prosperity Fund). Bydd hefyd yn offeryn ar gyfer symud ymlaen gyda'r camau yn y cynllun Llesiant newydd o dan yr amcan **'Bydd mwy o swyddi diogel, gwyrdd am gyflog da, a bydd sgiliau ar draws yr ardal yn cael eu gwella'.**

## YR ASESIAD LLESIANT

Yn ystod 2021/22 mae'r Bwrdd wedi gweithio i ddatblygu'r ail asesiad lleol o lesiant, sydd bellach wedi cael ei gyhoeddi ac y mae modd ei weld yma. Yn CNPT buom yn gweithio ar sail diweddaru ein hasesiad blaenorol cymaint â phosib er mwyn sicrhau'r darlun diweddaraf o lesiant yn ein hardal. Buom yn gweithio'n agos gyda BGC Abertawe, a hefyd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrth iddynt baratoi eu Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth, er mwyn osgoi ceisiadau lluosog am wybodaeth a rhannu adnoddau.

Buom hefyd yn gweithio ar y cyd fel partneriaid ac yn ffurfio grŵp bach amlasiantaeth i gefnogi'r broses. Mae'r grŵp hwn wedi parhau i gwrdd wrth i ni ddatblygu ein Cynllun, ac mae wedi bod yn adnodd ardderchog.

# Y CAMAU NESAF

Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i ddatblygu ail Gynllun Llesiant BGC CNPT, sydd i'w gyhoeddi ym mis Mai 2023. Yn hytrach na chychwyn o dudalen wag, mae'r Bwrdd yn adeiladu ar y gwaith rhagorol a wnaed yn ystod pum mlynedd cyntaf ei fodolaeth a'r cysylltiadau cryf a ffurfiwyd â phartneriaid. Er ein bod mewn cyfnod heriol, rydym yn cydnabod manteision gweithio ar y cyd a'r ffaith y gallwn gael mwy o effaith gyda'n gilydd, ac rydym wedi ymrwymo i'r dull gweithredu hwn wrth symud i'r cylch nesaf o bum mlynedd.